



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
The Subordinate Legislation Committee**

**Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2008
Tuesday, 9 December 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 4 Papurau i'w Nodi: Gorchmynion Arfaethedig Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo
Swyddogaethau) 2009
Papers to Note: Proposed Welsh Ministers (Transfer of Functions) Orders 2009
- 4 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y pwyllgor. Yn ogystal,
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur Labour
Mark Isherwood	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Joyce Watson	Llafur Labour

Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol
Assembly Parliamentary Service officials in attendance

Anna Daniel	Clerc Clerk
Bethan Davies	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Olga Lewis	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 8.14 a.m.
The meeting began at 8.14 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest

[1] **David Lloyd:** Fe'ch croesawaf i gyd i gyfarfod diweddaraf Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad. Croesawaf fy nghyd Aelodau, y swyddogion, a'r cyhoedd sydd yn yr oriel gyhoeddus. Os bydd argyfwng, bydd y tywyswyr yn ein harwain at yr allanfa agosaf. Fel yr ydych yn gwybod erbyn hyn, gellwch ddefnyddio'r clustffonau i glywed cyfieithiad ar y pryd ac i addasu lefel y sain. Gall y tywyswyr ddangos i'r cyhoedd sut i'w defnyddio. Rhaid diffodd ffonau symudol yn llwyr. Mae cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar sianel 1 a gellwch glywed y cyfraniadau yn yr iaith wreiddiol ar sianel 0. Ni dderbyniasom unrhyw ymddiheuriadau.

David Lloyd: I welcome you all to the latest meeting of the Assembly's Subordinate Legislation Committee. I welcome my fellow Members, the officials and the members of the public who are in the public gallery. If there is an emergency, the ushers will lead us to the nearest exit. As you know by now, you can use the headsets to hear the simultaneous interpretation and to adjust the level of the sound. The ushers can show the public how to use them. Mobile phones must be switched off completely. A simultaneous interpretation from Welsh into English is available on channel 1 and the verbatim is on channel 0. We have not received any apologies.

8.15 a.m.

**Papurau i'w Nodi: Gorchmynion Arfaethedig Gweinidogion Cymru
(Trosglwyddo Swyddogaethau) 2009**
Papers to Note: Proposed Welsh Ministers (Transfer of Functions) Orders 2009

[2] **David Lloyd:** Mae gennym bapurau i'w nodi, sef Gorchmynion Arfaethedig Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2009. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu ataf, fel Cadeirydd y pwyllgor hwn, i roi gwybod pa swyddogaethau y bwriedir eu trosglwyddo o Weinidogion y Deyrnas Unedig i Weinidogion Cymru yn y Gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau nesaf. Hoffwn dynnu eich sylw at y rhain. Mae'r set cyntaf yn ymwneud â swyddogaethau Gweinidog y Goron o dan adran 47 Deddf Carcharau 1952, mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a llyfrgelloedd i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Bydd yr ail Orchymyn yn ymwneud â datganoli swyddogaethau rheoliadau adeiladau i Weinidogion Cymru ar ddechrau 2009. Tynnir eich sylw at y rhain er gwybodaeth yn unig oherwydd byddant yn cael eu gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ac nid ydynt gan hynny yn dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor hwn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 15.7(ii). A ydyw pawb yn hapus â hynny? Gwelaf eich bod.

David Lloyd: We have papers to note, namely the Proposed Welsh Ministers (Transfer of Functions) Orders 2009. The First Minister has written to me as the Chair of this committee to say what functions are intended to be transferred from United Kingdom Ministers to the Welsh Ministers in the next transfer of functions Orders. I would like to draw your attention to these Orders. The first set concerns the functions of a Minister of the Crown under section 47 of the Prisons Act 1952 in relation to education, training and libraries so far as they are exercisable in relation to Wales. The second Order concerns the devolution of building regulation functions to Welsh Ministers at the beginning of 2009. I draw your attention to these Orders for information only because they will be laid before the United Kingdom Parliament and they therefore do not come within this committee's remit under Standing Order No. 15.7(ii). Is everyone happy with that? I see that you are.

[3] Mae'n weddus i nodi fy mod, gyda'ch caniatâd, yn bwriadu cynnal gweddill y cyfarfod hwn mewn sesiwn breifat oherwydd yr ydym yn trafod ein argymhellion a manylion ein hadroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru).

It is appropriate to note that I, with your permission, intend to conduct the rest of this meeting in private because we are to discuss our recommendations and the details of our report on the Proposed Local Government (Wales) Measure.

8.17 a.m.

**Cynnig Trefniadol
Procedural Motion**

[4] **David Lloyd:** Cynigiaf fod

David Lloyd: I propose that

y pwyllgor yn penderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.37(vi) er mwyn ystyried adroddiad drafft y pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) ac i drafod yr ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig.

the committee resolves to exclude the public from the remainder of the meeting in accordance with Standing Order No. 10.37(vi) in order to consider the committee's draft report on the Proposed Local Government (Wales) Measure and to discuss the inquiry into the scrutiny of subordinate legislation and delegated

powers.

[5] Gwelaf fod y pwyllgor yn gytûn. I see that the committee is in agreement.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

*Daeth rhan gyhoeddus y cyfarfod i ben am 8.17 a.m.
The public part of the meeting ended at 8.17 a.m.*